



Cynon Taf

Grŵp Cartrefi Cymunedol
Community Housing Group

Adroddiad Blynyddol 2025-26



Cynnwys

Rhageiriau	2-4
Ein Strategaeth	5-6
Cipolwg ar ein blwyddyn	7-8

Ein Cartrefi

Gwella ein cartrefi presennol	9-11
Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi newydd	12

Ein Cymunedau

Cynorthwyo ein tenantiaid i fyw'r bywydau maen nhw eu heisiau	13-21
Cryfhau iechyd, lles a sgiliau ein cymunedau	22-28

Ein Sylfeini

Datblygu gweithlu'r dyfodol	29-32
Bod yn fusnes sy'n canolbwyntio ar y dyfodol	33-36

Ein Llywodraethiant

Ein Llywodraethiant a'n Bwrdd	37-38
Bod yn fusnes gwyrddach	39

Rhagair - Cadeirydd



John Chown Group Chair

Wrth i ni fyfyrrio ar y flwyddyn ddiwethaf, sef blwyddyn gyntaf strategaeth newydd Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf (CTCHG), rydym yn falch o weld cynnydd sylweddol, o ran y gwasanaethau hanfodol yr ydym yn eu darparu i'n tenantiaid ac yn sefydlogrwydd ariannol parhaus y Grŵp.

Cyflawnwyd hyn yn erbyn cefndir o heriau cymhleth. Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i roi pwysau ar allu pobl i fforddio'r pethau sylfaenol, mae siociau ynni yn codi costau, ac rydym eisoes yn dechrau gweld heriau gaeafau gwlypach a hafau poethach wrth i newid hinsawdd effeithio ar bob un ohonom yng Nghymru.

Yn wyneb y rhwystrau trafferthus hyn i'n sefydliad, ein cydweithwyr a'n tenantiaid, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn dangos cyfeiriad strategol clir a chydlynus ar gyfer y Grŵp, yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddofn, wedi'i gwreiddio, o'r hyn sydd ei angen ar bobl, yr heriau yn eu cymunedau a sut orau y gallwn ni ddarparu cymorth.

Rydym wedi bod yn falch eleni ein bod wedi cryfhau ein Bwrdd trwy recriwtio, gan ddod ag arbenigedd newydd mewn meysydd allweddol wrth i ni gefnogi Tai Cymunedol Cynon Taf, Gofal a Thrwsio Cwm Taf ac I Lawr i Sero i gyflawni eu cenadaethau.

Mae tair rhan y Grŵp, sy'n gweithio'n unigol a gyda'i gilydd, yn darparu cartrefi o safon ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, gan helpu pobl hŷn i fyw yn annibynnol a chefnogi gweithgareddau amgylcheddol wedi eu harwain gan y gymuned i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Ni fyddai unrhyw ran o hyn yn bosibl heb ymagwedd pobl yn gyntaf at ddeall beth sydd ei angen ar gymunedau, gan gyfathrebu'n effeithiol â'n tenantiaid a chyd-greu'r datrysiadau yr ydym yn eu cynnig.

Pwysleisiwyd ein llwyddiant yn hyn eleni gan ein graddau uchaf posibl yn ein dyfarniad rheoleiddio. Mae'r Bwrdd yn llongyfarch y tîm cyfan ar y gamp hon – sy'n dystiolaeth o waith tîm effeithiol, adnabod ein tenantiaid a'n cymunedau yn dda a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, a mynd i'r afael â'n risgiau a'n heriau yn effeithiol.

Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i bob un aelod o'n timau ar draws y tri sefydliad yn ein Grŵp. Rydym yn gweld y llwyddiannau o gyfeiriad strategol cryf, recriwtio ac ailstrwythuro effeithiol, a thimau sy'n byw yn unol â gwerthoedd eu sefydliadau ddydd ar ôl dydd.

Rydym yn falch o chwarae ein rhan yn eu cefnogi fel Bwrdd ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rhagair – Prif Weithredwr



Auriol Miller Prif Weithredwr

Os oes un gair i grynhai eleni, ‘cysoni’ fyddai hwnnw. Mae ein ffocws wedi bod ar ailffurfio ein hadnoddau – ein pobl, ein cyllid, ein polisïau a’n strwythurau – i gefnogi cyflawni ein strategaeth newydd.

Gyda strwythur tîm arweinyddiaeth newydd eisoes ar waith wrth i ni ddechrau’r flwyddyn ariannol hon, rydym wedi recriwtio aelodau i’n Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn, gyda mewnbwn gan ein tenantiaid yn y broses honno. Mae ein cydweithwyr newydd wedi setlo’n dda ac yn gwneud cynnydd gwych yn erbyn cynlluniau cyflawni eu cyfarwyddiaeth o dan y strategaeth newydd.

Yn sgil buddsoddi yn y tîm newydd hwnnw, a rhoi iddo’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni, daethpwyd â chyfuniad o dimau at ei gilydd, sydd bellach wedi’i gysoni’n well, hefyd, i gyflawni yn erbyn y cyfleoedd a’r heriau a nodwyd yn ein cynlluniau.

Mae’r timau hynny wedi bod yn gweithio i adeiladu sylfeini cryf ar gyfer cam nesaf ein datblygiad gyda darnau gwaith allweddol, yn cynnwys

Strategaeth Pobl a Diwylliant newydd, Strategaeth Trawsnewid Digidol a Strategaeth Dwf.

Eleni, rydym hefyd wedi gweithio i gysoni ein cofrestr risg strategol â’n cynllun strategol newydd ac wedi cynnal ymarfer parodrwydd i dderbyn risg gyda’n Bwrdd yn rhan o’r broses i ffurfio ein huchelgais ar gyfer twf.

Mae hyn yn golygu bod gan bawb ar draws y sefydliad synnwyr cliriach o ble rydym ni’n mynd a sut caiff penderfyniadau eu gwneud. Atgyfnerthwyd hyn hefyd gan y sicrwydd sylweddol a ddarparwyd gan ein harchwiliad mewnol o gyflwyno a gweithredu ein cynllun strategol newydd.

Mae ein sefydlogrwydd a’n hyfywedd ariannol yn sail i’r holl waith hwn i gyd-fynd â’r strategaeth newydd. Eleni, rydym wedi parhau â’r gwaith sylweddol i ailgylidlo’r sefydliad. Bydd gwneud y gorau o’n hadnoddau ariannol nawr yn ein galluogi i gyflawni deilliannau gwell ar gyfer tenantiaid a chymunedau dros y tymor hir. Mae’n rhoi’r gallu i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol, tra’n addasu i adlewyrchu cyfleoedd neu heriau presennol hefyd, lle mae angen.

Mae sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu cryfhau yn ganolog i’r amcan ‘Ein Sylfeini’ yn ein strategaeth. Un o uchafbwyntiau’r flwyddyn oedd cyflawni’r radd uchaf posibl yn nyfarniad rheoleiddio Llywodraeth Cymru – cydnabyddiaeth allanol fod ein strategaeth ar y trywydd iawn ac yn gydnaws ag anghenion ein tenantiaid a’n cymunedau.

Fel y gwelwch o'r adroddiad hwn, rydym hefyd yn dod yn ein blaen yn dda â chyflawni yn erbyn ein dau amcan allweddol arall: Ein Cartrefi ac Ein Cymunedau.

Eleni, mae ein gwaith i ailgyllido'r sefydliad wedi ein galluogi i wneud buddsoddiadau sylweddol parhaus i sicrhau ein bod yn cynnig cartrefi cynhesach, mwy fforddiadwy ac o ansawdd uchel. Trwy ddefnyddio'r cyfle a ddarparwyd o dan Safon Ansawdd Tai Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, yn ogystal â'n mentrau ein hunain, rydym yn buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn gwelliannau sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechydd, lles a chyllid ein tenantiaid.

Rydym hefyd wedi amlinellu uchelgais i ddyblu nifer y cartrefi newydd yr ydym yn eu datblygu, ac eleni, rydym yn falch o groesawu'r preswylwyr cyntaf i'w cartrefi newydd yn ein cymuned yn Nhrem y Cwm.

Gyda'n cymunedau, lansiom ein rhaglen newydd a grëwyd ar y cyd, Ymrwymiad i Gwsmeriaid, sef ein rhaglen fwyaf yn ystod y flwyddyn i wrando ar denantiaid, sy'n amlinellu'n glir sut mae lleisiau tenantiaid yn dylanwadu ar ein harfer sefydliadol.

Caiff y gwaith sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn y mae ein timau'n ei wneud yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ei gydnabod a'i werthfawrogi'n glir gan ein tenantiaid, ac rydym wedi bod yn falch o weld mwy na 350 o denantiaid yn cymryd rhan yn ein digwyddiadau cymunedol. Y tu hwnt i hynny, mae'r tîm yn cyflawni buddion gwirioneddol i denantiaid, ac mae ein ffigur uchafu incwm ar gyfer y flwyddyn ymhell y tu hwnt i £0.5 miliwn.

Yn rhan o'r grŵp ehangach, eleni, dathlodd Gofal a Thrwsio Cwm Taf ei ben-blwydd yn 10 oed.

Yn wyneb heriau cynyddol sy'n wynebu ei gleientiaid, cynyddodd y tîm nifer yr ymweliadau a wnaeth eleni o bron i un rhan o bump, gan sicrhau dros £2m o waith.

Ochr yn ochr â'r gwaith hanfodol hwn, mae'r tîm wedi gweithio gyda phartneriaid ar uchafu incwm ar gyfer cleientiaid, gan fwy na threblu nifer y bobl sy'n cael cymorth – gan helpu 282 o bobl hŷn i gynyddu eu hincwm gan gyfanswm o £1.39m yn y flwyddyn.

Cynyddodd I Lawr i Sero ei ymgysylltiad â phobl trwy ddigwyddiadau, hyfforddiant a gwirfoddoli mewn natur eleni, gan ddarparu cyfle i wella sgiliau a lles, fel ei gilydd. Mae gwaith y tîm i wella diogeledd bwyd wedi parhau i ehangu, ac mae cynllun blwch llysiau wedi eu tyfu'n lleol Llysh Bocs yn darparu ffynhonnell wythnosol o fwyd ffres ar gyfer pobl sydd ei angen. Eleni, mae'r tîm hefyd wedi sicrhau cyllid newydd i ddod â Gwlyptiroedd Cymunedol Cwm-bach i rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru, gan ddarparu mynediad cynyddol at fannau gwyrdd ar gyfer ein tenantiaid.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n Bwrdd am y cymorth y mae wedi'i roi wrth i ni barhau i esblygu a thyfu fel sefydliad. Eleni, rydym wedi buddsoddi yn ein Bwrdd i sicrhau bod gennym gyfuniad eang o sgiliau a phrofiadau, sy'n cydfynd â'n cenhadaeth strategol, fel bod gan y Bwrdd y cryfder a'r dyfnder i'n herio a'n cefnogi yn fwy effeithiol, hyd yn oed.

Hoffwn ddiolch i bob aelod o'n Bwrdd, ein partneriaid a phob un aelod o'r timau ar draws ein Grŵp am eu hymrwymiad, eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth i ni symud ymlaen tuag at gyflawni gweledigaeth ar y cyd ein Grŵp i gael cymunedau iach yn y cymoedd, lle mae pawb yn teimlo'u bod wedi eu cysylltu, yn cael eu cefnogi ac yn obeithiol am y dyfodol.

Ein Strategaeth

Mae popeth rydym ni'n ei wneud yn gydnaws â chyflawni ein Cenhadaeth, sef:

Darparu cartrefi o safon ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, a bod yn bartner a chyflogwr cymunedol ysbrydoledig a dibynadwy.

Dyma beth rydym yn anelu at ei wneud bob dydd a beth rydym eisiau cael ein dwyn i gyfrif amdano.

Mae ein tri amcan strategol yn amlinellu ein huchelgais i gyflawni ar gyfer ein tenantiaid, ein cydweithwyr a'n cymunedau:

- 1. Ein Cartrefi:** Byddwn yn darparu cartrefi diogel, cynnes, fforddiadwy ac o ansawdd uchel ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
- 2. Ein Cymunedau:** Byddwn yn cael ein hadnabod yn bartner ysbrydoledig a dibynadwy yn ein cymunedau yn y cymoedd.
- 3. Ein Sylfeini:** A ninnau'n gyflogwr cymunedol dibynadwy, byddwn yn ychwanegu gwerth at bopeth rydym ni'n ei wneud, gan ddefnyddio ein hadnoddau'n ddoeth i gael yr effaith fwyaf.



Trem y Cwm, Porth

I gyflawni'r amcanion hynny, mae gennym saith blaenoriaeth strategol, sef:

1. Gwella ein cartrefi presennol
2. Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi
3. Cynorthwyo ein tenantiaid i fyw'r bywydau maen nhw eu heisiau
4. Cryfhau iechyd, lles a sgiliau ein cymunedau
5. Bod yn fusnes gwyrddach
6. Datblygu gweithlu'r dyfodol
7. Bod yn fusnes sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

I gyflawni'r amcanion hynny, mae gennym saith blaenoriaeth strategol, sef:

1. Ein nod yw gweithio yn unol â dull Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio (Cydwethredu, Integreiddio, Cyfranogiad, Hirdymor, Atal)
2. Rydym yn gwrandao'n ofalus ar beth mae tenantiaid, cleientiaid a chwsmeriaid yn ei ddweud, ac yn ymateb yn effeithiol, gan gydnabod nerth gweithio mewn partneriaeth â'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu
3. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar asedau at ddatblygu cymuned, gan gydnabod cryfderau ac arbenigedd profiad bywyd pobl
4. Ein nod yw defnyddio ein data, ein tystiolaeth, ein profiad a'n crebwyll i ddysgu a gwella'n gwaith, gan rannu ein llwyddiannau ag eraill.

Cipolwg ar ein Blwyddyn

£531,368

uchafu incwm ar
gyfer ein tenantiaid
yn 2025-26

**£2.8+
miliwn**

mewn gwella effeithlonrwydd ynni
ein cartrefi, a ariennir yn rhannol gan
Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
(ORP) Llywodraeth Cymru

**9.14
allan o 10**

sgôr boddhad
gyfartalog ar gyfer
gwelliannau ein
Rhaglen Ôl-osod er
mwyn Optimeiddio
(ORP)

£2m+

buddsoddwyd mewn
gwella ystafelloedd
ymolchi, ceginau,
ffenestri, drysau,
toeau ein cartrefi, i
fyni o £1.1m
y llynedd

57% o gartrefi sydd bellach
ar raddfa EPC C neu

15 cwblhawyd o gartrefi
newydd yn Y Porth

10

prynwyd gartrefi yng Nghwm Cynon i
helpu pobl i ddod o hyd i gartref parhaol



Clos Rowan Tree



Tenant newydd yn Clos Rowan Tree

83%

bodddhad
tenantiaid (arolwg
STAR) - i fyny o
82% yn yr arolwg
blaenorol

359

ymgysylltodd o denantiaid
â ni dros y flwyddyn mewn
digwyddiadau cymunedol

170

mae denantiaid bellach
wedi cofrestru i gael
ein cylchlythyr

1,314

ymyriadau a
gweithgareddau lles
gyda thenantiaid

£229,250

effaith gwerth
cymdeithasol o
brosiectau a ariennir,
sef: Sole Mates,
Posh Eats, Why Not
Aberdare, a Why Not
Hirwaun

400

ymgysylltodd tenantiaid â ni
ynghylch swyddi, hyfforddiant
a chyfleoedd gwirfoddoli

3,858

cafodd breswylwyr eu
cynorthwyo gan ein
Tîm Gwasanaethau
Cwsmeriaid ag
ymholiadau tai a
chynnal tenantiaeth o
ddydd i ddydd

1,314

ymgysylltodd
denantiaid ac
aelodau o'r
gymuned â'n
hymyriadau lles

Ein Cartrefi

Rydym yn cael ein gyrru gan ein hymrwymiad i ddarparu cartrefi diogel, cynnes, fforddiadwy ac o ansawdd uchel ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, ac eleni, rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwella ac uwchraddio ein cartrefi.



Mae'r gwaith hwn yn gwella ansawdd, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd cartrefi tenantiaid.

Rydym hefyd yn gweithio i gynyddu nifer y cartrefi rydym yn eu darparu. Cymeradwyodd ein Bwrdd Strategaeth Dwf newydd ym mis Mawrth 2026, sy'n cynnwys uchelgais i ddyblu nifer y cartrefi rydym yn eu datblygu bob blwyddyn.

Mae'r Cyfarwyddwr Asedau, Datgarboneiddio a Thwf, Owain Roberts yn arwain y tîm sy'n cyflawni strategaeth EIN CARTREFI.

Blaenoriaeth 1: Gwella ein cartrefi presennol

Cartrefi cynhesach, mwy fforddiadwy

Mae gwella ein cartrefi yn barhaus hefyd yn darparu cyfle i'w diogelu at y dyfodol, gwella'r deunydd insiwleiddio i'w gwneud yn gynhesach yn y gaeaf ac yn oerach yn yr haf, a gosod amrywiaeth o dechnolegau cynaliadwy i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i'w cynnal.

Rydym yn ariannu'r gwaith hwn trwy'r Grant Tai Cymdeithasol, Y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru a chyllid y sector preifat.


Eleni, defnyddiom Y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) a chyllid benthyciad i adnewyddu eiddo sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir gan ddefnyddio deunyddiau biolegol fel rhan o bartneriaeth gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Gwnaeth y dull arloesol hwn y cartref yn fwy effeithlon a chynaliadwy o ran ynni, a dangosodd y dechnoleg ar gyfer cyflwyno ymhellach, er budd lles tenantiaid.

Hefyd, sicrhaom fwy na £1.9m trwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) Llywodraeth Cymru a gwnaethom gynyddu hyn i £2.2m trwy fenthyciad gan Lywodraeth Cymru. Galluogodd hyn i ni gyflawni gwelliannau yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd sy'n gwneud tai yn fwy cyfforddus a fforddiadwy i'w cynnal.

Roedd hyn yn cynnwys:

- **Gwydr triphlyg**
- **Awyru mecanyddol**
- **Systemau gwresogi a TMVs**
- **Deunydd insiwleiddio waliau mewnol (IWI)**
- **Insiwleiddio atig**
- **Panelli solar (PVs)**
- **iBoost (dŵr poeth trwy PV)**
- **Goleuadau ynni isel**

Mae tenantiaid wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r gwelliannau a gyflawnwyd o dan yr ORP gan roi sgôr boddhad gyfartalog i ni o 9.14 allan o 10, gydag 88% o ymatebwyr yn rhoi gradd gadarnhaol i ansawdd y gwasanaeth a gafwyd. Fel ffordd bwysig o fesur ein llwyddiant, rydym wedi ymrwmo i gofnodi data ystyrlon ar denantiaid a fydd yn ein helpu i barhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.



Gwydr triphlyg



Insiwleiddio atig




Panelli solar

Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru

Yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i gyflawni Safon Ansawdd ddiweddaraf Tai Cymru (WHQS), eleni, rydym wedi buddsoddi yn ein rhaglenni cyfalaf ac wedi ailgaffael ein contractau ceginau ac ystafelloedd ymolchi.

Rydym hefyd yn buddsoddi mewn casglu gwybodaeth fanwl ychwanegol am bob un o'n cartrefi. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymdeithas dai ddal mwy na 100 darn o ddata fasul cartref, ac fel sector, rydym yn gweithio i gasglu'r data hwn yn gywir ac yn ddiogel. Byddwn yn parhau i weithio ar gasglu'r data hwn ar gyfer pob un o'n cartrefi yn ystod y flwyddyn i ddod, a bydd hyn, yn y pen draw, yn ein galluogi i wneud penderfyniadau hyd yn oed yn well am fuddsoddi er budd ein tenantiaid.

O dan Safon Ansawdd Tai Cymru, rydym yn parhau i wella graddau'r dystysgrif EPC ein cartrefi wrth i ni wneud gwelliannau a gosod technoleg newydd. Mae mwyafrif ein cartrefi bellach ym mand C y dystysgrif EPC a bydd y data hwn yn parhau i wella wrth i raddau'r dystysgrif EPC gael eu cyflawni trwy ein rhaglenni datgarboneiddio.



Mae ein tîm Asedau wedi caffael dau gontract pwysig gyda chwmnïau lleol i wneud gwaith gwella ynni yn ein cartrefi. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn buddsoddi mwy nag £8 miliwn i wneud ein cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni.

Buddsoddi yn ein cartrefi

Mae iechyd a diogelwch ein tenantiaid bob amser yn brif flaenoriaeth i ni ac mae cydymffurfiaeth landlordiaid yn parhau'n gryf wrth i ni barhau i fuddsoddi mewn gwella ein cartrefi.

Eleni, rydym wedi buddsoddi dros £2m mewn gwella ystafelloedd ymolchi, ceginau, ffenestri, drysau a thoeau ein cartrefi.

Eleni, rydym wedi cwblhau:

Cydrannau Newydd	2024-25	2025-26
Boeleri	59	96
Drysau	102	77
Ailweirio	2	5
Toeau	23	13
Ffenestri (eiddo llawn)	19	49
Ceginau	63	80
Ystafelloedd ymolchi	33	38

Rydym hefyd wedi gweithredu polisi caffael newydd. Ei nod yw cefnogi mentrau bach a chanolig lleol wrth gyflwyno ein gwasanaethau cydymffurfio ac atgyweirio.

Blaenoriaeth 2: Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi newydd

Strategaeth newydd i yrru twf

Datblygom Strategaeth Dwf newydd eleni, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2026. Mae hyn yn sicrhau ein hymrwymiad i gynyddu ein cyflenwad o gartrefi newydd ar gyfer y dyfodol ac yn dyblu ein huchelgais ar gyfer nifer y cartrefi yr ydym yn eu datblygu bob blwyddyn. Bydd hefyd yn golygu ein bod yn dechrau cynnwys cynhyrchion tai fforddiadwy eraill yn ein portffolio.

Rydym bob amser yn gweithio i gynyddu ein piblinell ddatblygu ac wrthi'n prynu tir ac adeiladau a fydd yn ehangu ein portffolio eiddo yn y flwyddyn i ddod.

Mae partneriaethau'n hanfodol i'n huchelgeisiau twf. Rydym yn parhau i weithio gyda datblygwyr a chyflenwyr lleol i greu prosiectau newydd a fydd yn ein helpu i gynyddu ein cyflenwad o gartrefi. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i ddarparu tai fforddiadwy, a chynlluniau sy'n mynd i'r afael â gofynion tai penodol, er enghraifft llety ar gyfer pobl ifanc a phobl ag anghenion arbennig.

Cartrefi newydd a ddarparwyd eleni

Roeddem yn falch iawn o groesawu preswylwyr newydd i'n datblygiad newydd o dai a fflatiau yn Nhrem y Cwm, Y Porth, a symudodd i mewn ar ddiwedd 2025. Dywedodd pob un o'r tenantiaid a ymatebodd i arolwg ar ôl symud i mewn wrthym eu bod yn rhoi gradd 5/5 i'r cartrefi newydd.

Yn ogystal â'r 15 cartref newydd yn Nhrem y Cwm eleni, darparom hefyd 10 eiddo i gynorthwyo pobl sy'n byw mewn llety dros dro i ddod o hyd i gartref parhaol.

Cartrefi cynaliadwy newydd yn Trem y Cwm

Cwblhawyd ein prosiect newydd Trem y Cwm mewn da bryd i breswylwyr symud i mewn ar gyfer Nadolig 2025. Mae'r prosiect wedi creu 15 o gartrefi o ansawdd uchel; 6 o dai â dwy ystafell wely, a 9 o fflatiau ag un ystafell wely. Adeiladwyd pob un o'r rhain yn unol â Gofynion Ansawdd Dylunio Cymru ac maent yn cyflawni graddau A yn y dystysgrif EPC.

Mae'r cartrefi'n cynnwys pypiau gwres o'r aer a phaneli solar, gan greu cynllun tanwydd cwbl drydanol, nad yw'n danwydd ffosil. Mae System Draenio Trefol Gynaliadwy hefyd wedi cael ei hymgorffori i gefnogi gwydnwch amgylcheddol.

Gwnaed y datblygiad hwn yn bosibl trwy waith partneriaeth cryf o dan Strategaeth Dai RhCT gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cyllid o Raglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau, ochr yn ochr â chyllid preifat Cynon Taf.



Trem y Cwm cyn ei adeiladu

Ein Cymunedau

Ein huchelgais yw cael ein hadnabod yn bartner ysbrydoledig a dibynadwy yn ein cymunedau yn y cymoedd. Caiff yr uchelgais ei gyrru gan gynorthwyo ein tenantiaid i fyw'r bywydau maent eisiau eu byw, a gweithio i gryfhau iechyd, lles a sgiliau ein cymunedau.

Eleni, ein blaenoriaeth fu mynd yn agosach at ein tenantiaid, a chysoni'r modd yr ydym yn gweithio o amgylch Ymrwymiad i Gwsmeriaid ar y cyd, wedi'i gydgyllunio. Mae wedi golygu ailffurfio ein tîm i gyflwyno swyddogion hyperleol a chanolbwyntio o'r newydd ar wasanaethau presennol o dan faner newydd Ffynnu (THRIVE). Mae hyn yn gwella'r modd y mae ein pobl yn ein cymunedau yn manteisio ar gymorth ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu helpu'n gynharach, yn fwy lleol, ac mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn well.

Mae cryfder canlyniadau ein harolwg boddhad tenantiaid yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae hyn eisoes yn ei chael, a bydd yr adborth a'r mewnwelediadau gwerthfawr y maent yn eu rhannu yn ffurfio ein blaenoriaethu dros y flwyddyn i ddod wrth i ni barhau i wella cysondeb a medrusrwydd ein gwasanaethau dan arweiniad tenantiaid.

Mae Angharad Rogers, Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau, yn arwain y tîm sy'n cyflwyno'r strategaeth EIN CYMUNEDAU.

Blaenoriaeth 3: Cynorthwyo ein tenantiaid i fyw'r bywydau maen nhw eu heisiau

Gwasanaethau Cwsmeriaid yn helpu tenantiaid

16,786 alwadau i'n canolfan gwasanaethau cwsmeriaid y llynedd

200

gysylltiadau wedi eu rheoli gan ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar gyfer ein timau Datblygu Cymunedol a Ffynnu (THRIVE), sy'n adlewyrchu ymgysylltu cryf â chymorth ataliol a chymorth yn canolbwyntio ar y gymuned

3,858

galwadau yn ymwneud â thenantiaeth yn cael eu trin gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan gefnogi preswylwyr gydag ymholiadau tai o ddydd i ddydd a chynnal tenantiaethau

329

alwadau yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ymatebodd ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid i'r rhain, gan sicrhau bod pryderon yn cael eu cofnodi'n gynnar a'u cyfeirio at y timau priodol

Ymrwymiad i Gwsmeriaid wedi'i gyd-greu



Mae ein Hymrwymiad newydd i Gwsmeriaid bellach yn arwain pob maes gwasanaeth ac yn enghraifft allweddol o'r modd y mae llais tenantiaid yn dylanwadu ar ein harfer sefydliadol. Hon fu'r enghraifft fwyaf o gyd-greu i ni eleni, wedi'i chynllunio â thenantiaid trwy grwpiau ffocws, arolygon, gweithdai ac ymgysylltu ar ddiwrnod cwrdd i ffwrdd. Lluniwyd iaith yr Ymrwymiad gan denantiaid, a'r safonau a'r ymddygiadau y maent yn eu disgwyl gennym ni.

Gellir gweld ein bod yn rhoi lleisiau tenantiaid yn ganolog i bopeth rydym yn ei gyflawni hefyd, trwy:

Tenantiaid yn cymryd rhan mewn Adolygiadau Gwasanaethau

Mae tenantiaid wedi cymryd rôl weithgar mewn adolygiadau gwasanaethau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan ddefnyddio'u profiadau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr i asesu beth sy'n gweithio, beth sydd angen ei wella, a beth sydd bwysicaf i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu'r realiti y mae tenantiaid yn ei wynebu.

Cymryd rhan mewn recriwtio

Mae tenantiaid yn eistedd ar banelau cyfweld yn rheolaidd, sy'n ein helpu i ddewis cydweithwyr sy'n rhannu eu gwerthoedd a'u disgwyliadau. Mae eu mewnbwn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn recriwtio cydweithwyr sy'n canolbwyntio ar bobl, yn empathig, ac yn cyd-fynd â'n diwylliant.

Ymgynghori ar Newidiadau i Bolisiau a Gwasanaethau

Ymgynghorir â thenantiaid fel mater o drefn ar newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diweddariadau polisi
- ailgynllunio gwasanaethau
- ffyrdd newydd o weithio
- gwybodaeth am gwsmeriaid a deunyddiau cyfathrebu.

Rydym yn defnyddio cyfuniad o arolygon ar-lein, arolygon testun, galwadau ffôn, a sgysiau wyneb yn wyneb fel bod y drefn i gymryd rhan mor hygyrch ag y bo modd.



Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd i Denantiaid a Grwpiau Ffocws Cymunedol

Mae ein Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd blynyddol i Denantiaid a'n grwpiau ffocws trwy gydol y flwyddyn yn galluogi tenantiaid i roi adborth gonest mewn lleoliadau hamddenol ac anffurfiol. Eleni, creodd ein diwrnodau cwrdd i ffwrdd ofod ar gyfer sgysiau dyfnach am eu cartrefi a'u cymunedau, eu profiadau â'n hatgyweiriadau a'n gwasanaethau, a'u lles a'u diogelwch.



Defnyddio Llais Tenantiaid mewn penderfyniadau am gyllideb a buddsoddi

Rydym wedi cryfhau'r modd y mae lleisiau tenantiaid yn bwydo i mewn i flaenoriaethau gosod cyllideb a buddsoddi. Mae safbwyntiau tenantiaid yn ffurfio'r hyn rydym yn buddsoddi ynddo a sut rydym yn dyrannu adnoddau, gan sicrhau bod cyllidebau'n adlewyrchu anghenion a phrofiad bywyd go iawn. Eleni, bu "dylanwadwr" tenantiaid yn cymryd rhan yn ein sesiynau gosod cyllidebau a chafodd gyfle i wrando a chraffu ar gyllideb pob cyfarwyddiaeth.

Cymunedau mwy cynhwysol a hygyrch

Eleni, rydym wedi gweithio ar greu fersiynau hygyrch o ddogfennau, yn cynnwys fersiynau sy'n hawdd eu darllen i sicrhau bod pawb yn gallu deall a defnyddio ein gohebiaeth. Bu tenantiaid yn llywio'r dewis o iaith a ddefnyddir ac yn dweud wrthym beth oedd bwysicaf iddyn nhw wrth gyflwyno ein gwasanaethau.



Rhannu Llais Tenantiaid ar draws y sefydliad

Rydym yn gwneud yn siŵr bod adborth tenantiaid yn weladwy ac yn cael ei ddefnyddio ar draws ein sefydliad. Rydym yn rhannu'r materion a'r mewnwelediadau y maent yn eu codi i'n timau arweinyddiaeth a'n bwrdd. Rydym yn defnyddio adborth gan denantiaid i lywio hyfforddiant mewnol a'n rhyngweithio â chydweithwyr. Rydym hefyd yn rhannu diweddariadau rheolaidd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' gyda thenantiaid i ddangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym. Mae'r tryloywder hwn yn atgyfnerthu ymddiriedaeth ac yn sicrhau bod tenantiaid yn gallu gweld effaith eu hymglymiad.

Gwrando ar leisiau tenantiaid

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu â thenantiaid ar sawl pwnc llosg, yn cynnwys ein Hymgynghoriad blynyddol ar Dâl am Rent a Gwasanaethau.

Eleni, dywedodd 68% o denantiaid wrthym eu bod yn meddwl bod eu rhent yn deg, a dywedodd rhai tenantiaid wrthym ei fod yn opsiwn mwy fforddiadwy na'r sector rhentu preifat. Mae costau byw yn parhau i effeithio ar ein tenantiaid, a dywedodd 16% wrthym mai o drwch blewyn yn unig yr oedd rhent yn fforddiadwy, ac roedd 50% o ymatebwyr yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill i gefnogi eu taliadau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i barhau i wella ein cartrefi, a chawsom adborth cadarnhaol hefyd ar ailosod paneli solar sydd wedi bod yn gostwng rhai costau cyfleustod mewn rhai o'n cartrefi.

Mae'r adborth hwn wedi cael ei rannu'n uniongyrchol â'n Bwrdd a bydd yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar gyllidebau a gosod rhent.



Adborth gan y gymuned a thenantiaid

Trwy ymgysylltu parhaus a thrwy greu cyfleoedd rheolaidd i denantiaid siarad â ni, mae neges gyson wedi dod i'r amlwg: mae ein tenantiaid yn ymddiried ynom ni, maent yn teimlo ein bod yn gwrando arnynt, ac yn gwerthfawrogi ein bod yn gweithio gyda nhw yn hytrach na gwneud penderfyniadau drostynt.

Mae tenantiaid wedi dweud wrthym:

- eu bod yn gwerthfawrogi cael cyfleoedd dilys i gael eu clywed
- eu bod yn gallu gweld bod eu hadborth yn ffurfio gwasanaethau, safonau a phenderfyniadau yn uniongyrchol
- eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u cynnwys mewn sgysiau sy'n effeithio ar eu cartrefi a'u cymunedau
- bod y dull wedi'i gydgyllunio yn rhoi hyder iddynt ein bod wedi ymrwymo i bartneriaeth, tryloywder a gwneud pethau yn y ffordd gywir

Mae canlyniadau ein harolwg STAR bob dwy flynedd yn atgyfnerthu cryfder y berthynas hon rhwng ein timau a'n tenantiaid.

Arolwg Tenantiaid STAR 2025-26



Meincnod

Canlyniad
2023-24

Newid dros
gyfnod

Canlyniad
2025-26

79%	81%	↑	83%	Boddhad yn gyffredinol
78%	82%	↔	82%	Ansawdd y cartref
84%	87%	↓	86%	Diogelwch a diogeledd y cartref
80%	85%	↓	83%	Gwerth am arian y rhent
65%	66%	↑	67%	Gwerth am arian tâl gwasanaeth
71%	79%	↓	77%	Atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw yn gyffredinol
65%	68%	↔	68%	Mae CTCHG yn gwrando ar farn ac yn gweithredu arni
58%	66%	↔	66%	Rwy'n cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau
59%	69%	↓	64%	Rwy'n cael dweud fy marn am reoli gwasanaethau
74%	79%	↑	82%	Rwy'n ymddiried yn CTCHG
81%	83%	↑	84%	Cymdogaeth fel lle i fyw
62%	67%	↓	62%	CTCHG yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol



Gwelliant
sylweddol yn
ystadegol



Dim newid
sylweddol yn
ystadegol



Gostyngiad
sylweddol yn
ystadegol

Ymgysylltu cryfach trwy ddulliau cymdeithasol, cadarnhaol

Mae gweithgareddau fel creu torchau, digwyddiadau diwylliannol a sesiynau cymunedol yn ein helpu i ymgysylltu â thenantiaid mewn lleoliadau hamddenol a braf. Mae hyn yn meithrin ymddiriedaeth, yn annog sgysiau gonest, ac yn galluogi tenantiaid i siarad yn agored am y cymorth neu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Gweithdai creu torchau

Mae'r sesiynau hyn yn gwneud defnydd uniongyrchol o ddull yn seiliedig ar asedau trwy gydnabod a gwerthfawrogi creadigrwydd, sgiliau a thraddodiadau diwylliannol y tenantiaid eu hunain. Trwy weithio gyda Purple Shoots ar gyfer pob un o'r sesiynau hyn ac mewn man a gefnogir, rydym wedi galluogi tenantiaid i rannu doniau â'i gilydd, magu hyder a chysylltu yn gymdeithasol.



Gwneud torchau i denantiaid



Tenantiaid yn mwynhau Dydd Gŵyl Dewi

Gweithgareddau Cymunedol Dydd Gŵyl Dewi

Mae cynnal digwyddiadau diwylliannol fel dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn atgyfnerthu hunaniaeth gymunedol ac yn cefnogi lles emosiynol. Mae'r sesiynau hyn yn helpu tenantiaid i deimlo'u bod yn rhan o rywbeth ar y cyd, yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a'i mwynhau yn eu cymunedau, a chryfhau eu cysylltiad â'n tîm a'u cymdogaeth ehangach.

Defnyddio mannau cymunedol i feithrin lles cymdeithasol

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn mannau cymunedol sy'n galluogi tenantiaid i ymgynnull, rhannu profiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau ymgysylltu mewn hybiau cymunedol ym Mhenrhiw-ceibr, Hirwaun, Ynysybwl ac Abercwmbol, yn cynnwys ein "lleisiau tenantiaid ar daith"; gweithdai crefft a lles; a gweithgareddau pontio'r cenedlaethau yn ystod gwyliau ysgol.



Tenant yn y Clwb Llyfrau

Gwella cynnal tenantiaethau

Eleni, rydym wedi cryfhau ein dull o gynnal tenantiaethau gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar, gwybodaeth leol, a chymorth personoledig. Mae ein model yn ein helpu i atal argyfyngau, magu hyder ymhlith tenantiaid, a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir:

Hyfforddwr Tenantiaeth - Cymorth Dwys, Gwaith Atal Personoledig

Mae ein Hyfforddwr Tenantiaeth yn darparu cymorth un i un ar gyfer tenantiaid sydd angen ymyrraeth tymor hwy, gyda mwy o ffocws. Mae'r rôl hon yn hanfodol ar gyfer atal tor tenantiaeth a gwella lles.

Mae pecyn cymorth yn cynnwys:

- Gwella cyflyrau eiddo i greu amgylcheddau byw mwy iach a diogel, a gwella mynediad i wneud gwaith i gydymffurfio â diogelwch
- Datblygu arferion, sgiliau bywyd a hyder
- Mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl ac ariannol sylfaenol
- Cydlynu atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth arbenigol trwy ddull amlasiantaethol
- Atal achosion o droi allan o gartrefi trwy fynd i'r afael â phroblemau yn gynnar.

Mae'r dull dwys, perthynol hwn yn golygu bod problemau'n cael eu datrys cyn iddynt ddwysáu, gan leihau ymyriadau mewn argyfwng a helpu tenantiaid i gynnal eu cartrefi.

Model Ardal Hyperleol – Ymgorffori Swyddogion Tai mewn Cymunedau

Rydym wedi ailgynllunio ein hardaloedd Swyddogion Tai i fod yn hyperleol. Mae hyn yn galluogi ein timau i weithio mewn ardaloedd â mwy o ffocws, gan feithrin perthnasoedd cryf a gwybodaeth leol.

Mae'r newid hwn yn dod â Swyddogion Tai yn agosach o lawer at y gymuned, gan eu helpu i sylwi ar faterion sy'n dod i'r amlwg – fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, anawsterau ariannol, pryderon ynghylch diogelu, neu fregusrwydd – gydag amser i weithredu cyn iddynt ddwysáu.

Ailfrandio a chryfhau ein Tîm Ffynnu (Thrive)

Mae ein Tîm Ffynnu wedi cael ei ailffurfio a'i ailfrandio i adlewyrchu ei ffocws rhagweithiol ar ddarparu cymorth cynnar i denantiaid â thrin arian, budd-daliadau, grantiau a chymorth â chaledi, lles, hyder a gwydnwch.

Mae'r ailfrandio wedi helpu newid amgyffredion am y cymorth hwn o "help ariannol mewn argyfwng" i wasanaeth mwy holistaidd, grymusol ac ataliol. Mae Ffynnu (Thrive) bellach yn gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Tai, Gwasanaethau Cwsmeriaid ac asiantaethau allanol i atal tenantiaethau rhag cyrraedd pwynt o ansefydlogrwydd.

Help cynnar cydgysylltiedig ar draws timau

Trwy gysylltu ein gwasanaethau sy'n wynebu'r blaen, Gwasanaethau Cwsmeriaid, tîm Ffynnu (Thrive), a Swyddogion Tai hyperleol, rydym wedi creu llwybr ymyrraeth gynnar ddi-dor. Mae hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu nodi'n gynnar, bod atgyfeiriadau'n gyflym a phriodol, a bod cymorth yn cael ei gydlynu.

Gweithio gyda'n gilydd i gael cartref mwy diogel

Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo tenantiaid i fyw yn ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartrefi. Yn ddiweddar, buom yn gweithio gyda Maria (nid ei henw go iawn) ar ôl i ymweliad gwasanaeth nwy arferol amlygu pryderon ynghylch diogelwch. Gyda'n gilydd, sicrhaom ganlyniad gwych.

Cysylltodd ein contractwr â ni pan nad oedd yn gallu cael mynediad at fesurydd nwy Maria oherwydd bod yr ardd yn llawn tyfiant. I wneud yn siŵr bod yr eiddo'n aros yn ddiogel, roedd yn bwysig bod yr ardal yn cael ei chlirio ar gyfer yr arolwg. Pan aethom i weld Maria, esboniom pam roedd y gwasanaeth nwy mor bwysig a sut mae'n helpu cadw ei chartref yn ddiogel. Roedd Maria yn deall pwysigrwydd y mater a gofynnodd i'w meibion glirio'r man o fewn yr wythnos.

Yn ystod yr ymweliad, sylwom hefyd fod y gegin yn orlawn, sy'n gallu cynyddu risg tân. Trafodom y sefyllfa yn dyner gyda Maria, a fu'n gweithio'n galed dros y pythefnos nesaf i glirio'r gegin.

Diolch i'r gwaith a wnaeth Maria a'i theulu:

- Cafodd y mesurydd nwy ei glirio a chwblhawyd y gwasanaeth yn llwyddiannus
- Mae'r gegin yn rhydd o annibendod a'r risg tân yn llai
- Dywedodd Maria wrthym ei bod yn teimlo'n hapusach a bod ganddi fwy o reolaeth, gan fod amgylchedd ei chartref yn fwy trefnus erbyn hyn
- Gall y teulu deimlo'n fwy diogel gan wybod bod y cartref yn bodloni safonau diogelwch hanfodol.

Mae hon yn enghraifft wych o'r modd y gall newidiadau bach greu effaith fawr, a'r modd y mae gweithio gyda'n gilydd yn ein helpu i gadw ein cartrefi'n ddiogel a'n cymunedau'n gryf.





Partneriaeth Built for Zero

Rydym yn aelod gweithgar o weithgor Built for Zero, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd ymhlith grwpiau risg uchel, yn cynnwys pobl sy'n gadael carchar.

Mae'r bartneriaeth yn rhannu mewnwelediad rheng flaen ar atal a chynnal tenantiaeth ac yn amlygu bylchau mewn llwybrau lleol. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wella opsiynau symud ymlaen a lleihau digartrefedd mynych.

Mae ein hymglymiad yn helpu sicrhau bod datrysiadau lleol yn ymarferol, yn gydlynus ac wedi eu seilio ar brofiad o'r byd go iawn.

Bwrdd Rhanbarthol y Grant Cymorth Tai (HSG)

Rydym yn aelodau o Fwrdd Rhanbarthol Grant Cymorth Tai RhCT, sy'n ein galluogi i ddylanwadu'n uniongyrchol ar:

- benderfyniadau comisiynu
- modelau atal digartrefedd
- llwybrau tai â chymorth.

Mae hyn yn sicrhau bod safbwynt landlord cymdeithasol yn cael ei ymgorffori mewn cynllunio rhanbarthol a bod penderfyniadau cyllid yn adlewyrchu realiti angen tai ar draws Rhondda Cynon Taf.

Blaenoriaeth 4: Cryfhau iechyd, lles a sgiliau ein cymunedau

Cryfhau deilliannau iechyd a lles ar gyfer tenantiaid

Mae ein Hyfforddwr Tenantiaeth yn darparu cymorth un i un teilwredig i unigolion ag anghenion mwy cymhleth. Mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda thenantiaid tuag at ystod o nodau iechyd a lles, yn cynnwys:

- Cynorthwyo pobl i greu amgylchedd cartref mwy diogel, mwy iach a mwy cyfforddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion fel annibendod, glanweithdra a sgiliau rheoli cartref, sy'n cael effaith uniongyrchol ar les corfforol a meddyliol.
- Helpu tenantiaid i ddatblygu arferion, sgiliau bywyd a strategaethau ymdopi sy'n hyrwyddo sefydlogrwydd ac yn magu hyder, yn cefnogi annibyniaeth ac yn gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol.
- Lleihau straen a gwella lles meddyliol trwy gynnig cymorth personoledig.
- Cryfhau cynaliadwyedd tenantiaeth trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol heriau yn gynnar. Mae hyn yn atal pwyntiau argyfwng, yn lleihau atgyweiriadau y gellir eu hosgoi, ac yn cynorthwyo tenantiaid i gynnal eu cartrefi yn y tymor hir.
- Dull amlasiantaethol, yn cynnwys iechyd, iechyd meddwl, cymorth ariannol, gwasanaethau cymunedol a Ffynnu (Thrive), i roi'r cymorth cywir i denantiaid ar yr adeg gywir.



Buddsoddi yn lles tenantiaid

Eleni, rydym wedi ymgysylltu â 1,314 o denantiaid ac aelodau o'r gymuned trwy ein hymyriadau lles. Mae hyn wedi cynnwys darparu cymorth lles uniongyrchol, helpu pobl â llenwi ffurflenni a cheisiadau, a chefnogi mynediad at gymorth mewnol dwysach, lle mae angen. Rydym hefyd wedi helpu unigolion i gysylltu â gwasanaethau arbenigol, fel Mind a phantriâu bwyd.

Grŵp Cerdded - annog gweithgarwch corfforol rheolaidd, ysgafn

Sole Mates yw un o'n mentrau lles mwyaf llwyddiannus, sydd wedi'i chynllunio i helpu tenantiaid i wella'u hiechyd corfforol, lleihau ynysigrwydd, a magu hyder trwy weithgarwch effaith isel a hygyrch yn yr awyr agored. Mae Grŵp Cerdded Sole Mates yn cynnig man cyfeillgar a chroesawgar i denantiaid fwynhau teithiau cerdded rheolaidd gyda'i gilydd.



Sole Mates yng Ngwlyptiroedd Cwm-bach



Un o'n tenantiaid yn creu torch

Creu torchau – lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a gwella iechyd meddwl

Buom yn ymgysylltu â 74 o denantiaid ac aelodau o'r gymuned mewn cyfres o sesiynau creu torchau a gyflwynwyd trwy hybiau cymunedol sefydledig – mannau croesawgar a chyfarwydd a oedd yn annog cyfranogiad a chysylltu. Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn yn benodol i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a chefnogi iechyd a lles meddyliol, o amgylch gweithgaredd difyr ar y cyd.

Gyda thros £2,200 wedi'i fuddsoddi, cynhyrchodd y sesiynau adenillion cymdeithasol o £50.59 ar gyfer pob £1 sy'n cael ei gwario, gan droi hyn yn swm a amcangyfrifir o £112,000 o effaith gymdeithasol net.

Bwyta'n iach a mynediad at fwyd - mynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd

Mynychodd 36 o bobl ein rhaglen Posh Eats eleni, gan wella'u sgiliau coginio a dysgu ryseitiau newydd i goginio gartref.

Buom hefyd yn cynorthwyo tenantiaid sy'n wynebu diffyg diogeledd bwyd trwy roi 57 o dalebau banc bwyd ac 16 o dalebau bwyd Tesco iddynt.



Coginio yn Gower Davies Court

Cyflawni effaith gymdeithasol trwy ein gweithgareddau cymunedol

Rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2025, cyflwynom raglen o weithgareddau cymunedol a ariennir yn allanol ar draws pedwar prosiect: Sole Mates, Posh Eats, Why Not Aberdare, a Why Not Hirwaun. Roedd cyfanswm buddsoddiad o £9,520 a ariennir trwy Grant Cymunedol RhCT, wedi cefnogi pum sesiwn o fewn pob rhaglen.

Ar draws pob gweithgaredd, bu 125 o unigolion yn cymryd rhan, yn ymgymryd â chyfleoedd i leihau ynysigrwydd, gwella lles a chryfhau cysylltiadau cymunedol.

Cyflawnodd y rhaglen werth eithriadol o dda am arian, gan sicrhau adenillion cymdeithasol o fuddsoddi (SROI) o £23.89, sef cyfanswm effaith o £229,250.

Mae hyn yn amlygu'r effaith sylweddol y gall buddsoddiad cymunedol ar raddfa gymharol fach ei chael o ran gwella lles, cryfhau cysylltiadau cymdeithasol, a chefnogi cymunedau cynaliadwy.

Caiff llwyddiant y gweithgareddau hyn ei fesur nid yn unig mewn niferoedd, ond yng nghryfder y cysylltiadau sy'n cael eu meithrin, yr hyder a fagwyd o'r newydd, a'r ymdeimlad o berthyn a grëwyd ar draws ein cymunedau. Helpodd y sesiynau hyn i leihau ynysigrwydd cymdeithasol, annog pobl i ddod yn fwy egniol, a chrëwyd manau lle gallai preswylwyr feithrin perthnasoedd ystyrlon a chefnogi ei gilydd.



Creu cyfleoedd gwirfoddoli a chefnogi cyflogaeth ar gyfer ein tenantiaid



Mae mwy na 400 o denantiaid wedi ymgysylltu â ni ar swyddi, hyfforddiant, meithrin sgiliau a chyfleoedd gwirfoddoli. Mae ein cymorth wedi cynnwys darparu cyngor ar gyflogaeth a helpu pobl i elwa ar gyfleoedd gwirfoddoli. Rydym hefyd wedi helpu 92 o denantiaid i feithrin eu sgiliau digidol.

Eleni, rydym hefyd wedi defnyddio Credydau Amser i gydnabod a gwobrwyo tenantiaid a gymerodd ran yn ein digwyddiadau glanhau cymunedol. Mewn partneriaeth â Tempo, a'n helpodd i gydnabod, cofnodi ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, rydym wedi cryfhau ein cynnig gwirfoddoli.

O ganlyniad, mae oriau gwirfoddoli wedi cynyddu, gyda 30 awr wedi eu credydu trwy garfan gychwynnol. Mae hyn yn nodi cam pwysig wrth ymgorffori diwylliant gwirfoddoli ac yn darparu plattfform cryf i ehangu cyfranogiad yn y flwyddyn i ddod.



Codi sbwriel ym Mherthcelyn

Gofal a Thrwsio Cwm Taf

Mae'r galw am wasanaethau Gofal a Thrwsio yn parhau i dyfu.

O gymharu â'r llynedd, mae ein swyddogion wedi ymweld ag 18% yn fwy o gleientiaid. Cyflawnom £2.17 miliwn o waith a chyflawni 10% o werth ychwanegol, tra'n cwblhau 4% yn fwy o dasgau nag yn 2024-25.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chanolbwyntio ar sicrhau bod cleientiaid yn cael gwasanaethau gartref yn allweddol i'n hymagwedd, gan alluogi pobl i heneiddio'n dda tra'n lliniaru eu hangen i ymuno â rhestrau aros.

Ein cyflawniad mwyaf eleni yw ein llwyddiant ag uchafu incwm, a gyflawnwyd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sefydliadau iechyd cyhoeddus lleol eraill, a sefydliadau eraill y trydydd sector.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi mwya na threblu (+216%) nifer y cleientiaid sy'n cael cymorth â hyn, gan helpu rhyddhau dros 200% yn fwy o incwm o hawliau. Eleni, cynyddodd 282 o bobl hŷn eu hincwm o gyfanswm gan £1.39 miliwn, diolch i'n cymorth ni.

Mae atal pobl rhag cwmpo gartref yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig. Eleni, gwnaeth 82% o'r gwaith a gwblhaom leihau eu risg cwmpo – cynnydd 6% ar 2024-25 – a llwyddodd 86% o'n gwaith i atal achosion posibl o anfon pobl i'r ysbyty – cynnydd 4% ar y llynedd.

Roeddem hefyd yn falch o lansio ein rhaglen brentisiaeth gyntaf eleni. Bydd hyn yn cefnogi ein cynlluniau olyniaeth ein hunain ac yn darparu sgiliau hanfodol a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.





I Lawr i Sero

Eleni, rydym wedi ymgysylltu â phobl yn ein cymuned a thenantiaid Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf mewn gweithredu ar newid hinsawdd ac wedi gwella mynediad at fannau cymunedol gwyrdd ar draws RhCT.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae ymgysylltiad wedi cynyddu, ac mwr o leiaf 183 o bobl yn elwa trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, hyfforddiant a gweithgareddau gwirfoddoli, gan ddarparu platfform ar gyfer pobl leol i wella'u sgiliau a'u lles.

Rydym wedi adeiladu ar sylfeini cadarn i wella Llysh Bocs, ein gwasanaeth tanysgrifio i gael blwch llysiau wedi eu tyfu â chariad. Trwy'r fenter hon, rydym wedi gallu tyfu bwyd, a darparu blychau bwyd maethlon, fforddiadwy a chynaliadwy i bobl leol bob wythnos trwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer sefydliadau fel Gwlyptiroedd Cymunedol Cwm-bach, Men's Shed Pont-y-clun a Think Creatively. Gyda'i gilydd, maent wedi galluogi pobl leol i wella'u sgiliau a'u lles a threulio amser ym myd natur.

Rydym wedi sicrhau £22,024 i ddatblygu ein safle Gwlyptiroedd Cymunedol Cwm-bach ymhellach a dod ag ef i mewn i rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Bydd hyn yn darparu mynediad cynyddol at fannau gwyrdd ar gyfer pobl leol, mewn ardal sy'n gartref i nifer fawr o denantiaid Tai Cymunedol Cynon Taf.

Mae ein hymrwymiad i bartneriaeth hefyd wedi parhau i gyflawni effaith trwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi cyfrannu at Rwydwaith Gweithredu Hinsawdd RhCT a Phartneriaeth Fwyd RhCT, y bartneriaeth fwyd leol, y mae'r naill a'r llall ohonynt yn helpu ffurfio gwasanaethau gwell, a darparu cyfleoedd i bobl leol yn ein cymunedau.



Neil Wroblewski



Robert Hollidge



Ein Sylfeini

A ninnau'n gyflogwr cymunedol dibynadwy, rydym yn ceisio ychwanegu gwerth ym mhopeth rydym ni'n ei wneud, gan ddefnyddio ein hadnoddau'n ddoeth i gael yr effaith fwyaf.

Mae hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar ein sylfeini – ar sut rydym ni'n gwella ein busnes yn systematig, ar sut rydym yn cynorthwyo ein pobl i gyflawni eu potensial, ar gynnal cyllid sefydlog a chynaliadwy, ac ar greu sefydliad mwy cynaliadwy.

Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Gwella Busnes, Emma Brute, a Chyfarwyddwr Cyllid y Grŵp, Alison Williams, yn gyfrifol am y strategaeth Ein Sylfeini.

Blaenoriaeth 5: Datblygu gweithlu'r dyfodol

Cwblhawyd sawl prosiect mawr eleni ar gyfer y tîm Pobl a Diwylliant.

Y cyntaf oedd datblygu a chyflwyno ein Strategaeth Pobl a Diwylliant newydd. Mae'r darn o waith amrywiol hwn yn sail i'n strategaeth fusnes, sy'n sicrhau ein bod yn gallu:

- recriwtio a chadw'r doniau gorau
- rheoli perfformiad yn unol â fframweithiau cytûn ar draws y sefydliad
- buddsoddi mewn dysgu a datblygu ar gyfer pob un o'r cydweithwyr, a chreu llwybrau newydd i gael mynediad trwy ein cynlluniau prentisiaethau a graddedigion
- defnyddio dull wedi'i lywio gan ddata o ran amrywiaeth, o dan strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd.

O fewn y strategaeth honno, roedd dau ddarn o waith pwysig, hefyd, sef: creu a gweithredu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer y sefydliad, a chyflwyno fframwaith rheoli perfformiad newydd yn adlewyrchu ein strategaeth newydd, ein gwerthoedd a'n hymddygiadau.

Ym mis Awst 2025, roeddem yn falch mai ni oedd y gymdeithas dai gyntaf i gael ein hailachredu'n llwyddiannus â nod mawreddog Tai Pawb, Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (QED). Mae'r wobwr yn cydnabod ein hymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws holl feysydd y sefydliad, gan feithrin diwylliant mwy cynhwysol lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u parchu.

Eleni, ailstrwythurwyd ein tîm gweithredol a'n huwch dîm arweinyddiaeth yn sylweddol, yn unol â'n strategaeth newydd, sydd i gyd yn cael cefnogaeth gan y tîm Pobl a Diwylliant i drosglwyddo'n esmwyth i'r busnes.

Mae ein harolwg lles tîm, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, wedi rhoi darlun clir i ni o sut mae ein tîm yn teimlo am eu gwaith a'r sefydliad. Dywedodd ychydig dros 75% o'r rheiny a ymatebodd y byddent yn ein hargymell fel lle da i weithio, ac amlygodd yr arolwg fod rhai meysydd lle mae angen i ni ganolbwyntio i sicrhau bod cydweithwyr yn parhau i deimlo'n hapus, yn fodlon a'u bod yn cael cefnogaeth.

Cipolwg ar ein tîm



81

yw cyfanswm
y bobl



79.8

yw'r nifer cyfwerth
ag amser llawn




4

o staff dros dro



7.5

mlynedd
yw'r ddeiliadaeth
gyfartalog



0.83%

yw'r bwlch cyflog
rhywedd



1.69%

o drosiant




4


dyrchafiad mewnol,
yn cynnwys i lefel
cyfarwyddwr

Proffiliau ein tîm


Oedran




Rhywedd




Ethnigrwydd



Cyfeiriadedd rhywiol



Anabledd



Blaenoriaeth 6: Bod yn fusnes sy'n canolbwyntio ar y dyfodol



Ein Gwelliant Busnes

Eleni, crëwyd ein Tîm Gwella Busnes newydd.

Wrth greu swyddogaeth newydd ar gyfer y sefydliad, mae'r tîm wedi dod ynghyd i greu diwylliant newydd o chwilfrydedd a didwylledd, gan feithrin ymddiriedaeth gyda chydweithwyr a gweithio i roi mewnwelediadau gan denantiaid yn ganolog i wneud penderfyniadau.

Yn ei flwyddyn gyntaf, mae'r tîm eisoes wedi:

- adolygu 23 o brosiectau byw a 115 o syniadau gwella, ac wedi cytuno ar chwech o raglenni gwella blaenoriaethol sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol;
- cymeradwyo Fframwaith Gwella Busnes a Grŵp Llywio i ddarparu trefn gyson ar gyfer gwneud penderfyniadau, lleihau gweithio seilo, a gwella cyflwyno ar gyfer prosiectau newydd a syniadau gwella;
- datblygu un 'drws ffrynt' ar gyfer syniadau gyda thempled safonol i wella ansawdd cynigion a chyflymu brysbennu;
- cyflwyno grŵp ffocws misol i yrru camau archwilio mewnol i gwblhau, gan haneru nifer y camau gweithredu a chryfhau cyflawni erbyn dyddiadau gwella cytûn;
- cyflawni gwaith sy'n cynnwys ymchwilio i gŵynion yn drylwyr / mapio prosesau, adolygu bylchau o'r dechrau i'r diwedd, mapio polisïau a llywodraethu, a darparu cymorth ar gyfer rhaglenni allweddol fel newid i'r digidol;
- sicrhau cymeradwyaeth gan y Bwrdd ar gyfer ein Strategaeth Trawsnewid Digidol, gyda data'n cael ei drin fel ased craidd i gefnogi gwasanaethau gwell ar gyfer tenantiaid.

Ein Cyfathrebu

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cryfhau'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â thenantiaid, cydweithwyr a phartneriaid trwy ehangu ein sianelau a gwella ansawdd a chysondeb gwybodaeth.

Roedd gwelliannau allweddol yn cynnwys lansio ein cylchlythyr newydd ar gyfer tenantiaid, Cymuned yn Ein Cysylltu, cwblhau rhaglen diweddarau mewnwyd i sicrhau bod cydweithwyr yn gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth gywir a chyfoes, a chychwyn adfywio brand yn llawn i wella eglurder, hygyrchedd a chysondeb ar draws ein holl ddulliau cyfathrebu.

Cynyddom ein cyrhaeddiad a'n hymgysylltu trwy gyfuniad o gyfryngau print a digidol, a chryfhau ein tîm gyda chymorth amlgyfrwng ychwanegol i'n galluogi i greu mwy o gynnwys fideo a chynnwys difyr.

Mae'r adnodd ychwanegol hwn hefyd wedi ein galluogi i dreulio mwy o amser gyda thimau, tenantiaid a chymunedau i ddeall beth maent ei eisiau o'n dulliau cyfathrebu, meithrin perthnasoedd a rhannu mwy o storïau personol, y gellir uniaethu â nhw.

2 rifyn newydd o Mae Cymuned yn Ein Cysylltu

600
o gopïau print

649
golygfeydd digidol

10%
o'n sylfaen denantiaid a danysgrifiodd i 'Community Connects Us' yn ddigidol



Ein TG a'n Systemau

Cwblhawyd gwerthusiad pwysig o'n holl systemau eleni, gan ddiweddu mewn datblygu Strategaeth Trawsnewid Digidol tair blynedd newydd. Yn sgil hyn, bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i systemau allweddol sy'n cefnogi'r sefydliad, gan gynnwys:

- Monitro seilwaith TG
- Systemau Tai a Chyllid newydd
- Uniondeb data ac adrodd am ddata.

Mae hwn wedi bod yn ddarn arwyddocaol o waith i'r tîm TG wrth weithio ar draws y sefydliad i ddeall pob un o'r meysydd ar gyfer buddsoddiad a gwelliant posibl.

Gwelliannau parhaus mewn TG

Eleni, mae seilwaith ac offer hefyd wedi cynnwys offer a sgriniau cynadledda newydd mewn pedair ystafell gyfarfod, rhaglen i ddisodli cyfrifiaduron llechen a darparu 26 gliniadur newydd.

Ein Cyllid

Yn y bôn, mae diogelwch ariannol sefydlog, hirdymor, yn sail i'n gallu i fuddsoddi mewn darparu cartrefi cyfforddus, cynnes a fforddiadwy ar gyfer pobl yn ein cymunedau.

Eleni, mae ein tîm wedi cwblhau rhaglen ailgyllido ac ailstrwythuro cyfamodau gyda benthycwyr i roi i ni'r hyblygrwydd ariannol sydd ei angen arnom i barhau i fuddsoddi yn ein cartrefi presennol a'n datblygiadau newydd.

O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, byddwn yn gallu buddsoddi £8m yn ychwanegol yn ein cartrefi, rhai presennol a newydd, fel ei gilydd, a chyn bo hir, byddwn yn sicrhau cyfleuster benthycyca ychwanegol i ddatgloi £3m ar gyfer buddsoddi mewn datgarboneiddio.

Yn fewnol, mae sefydlu timau trysorlys a'r hyfforddiant cysylltiedig angenrheidiol wedi bod yn brif ffocws i ni. Mae hyn yn parhau i fod yn ddarn allweddol o waith wrth i ni fynd ati i greu'r tîm, a rhoi strwythurau, systemau a phrosesau trysorlys gwell ar waith.

Eleni, buom hefyd yn dathlu gyda dau aelod o'n tîm cyllid a gwblhaodd lefelau 5 a 3 cymhwyster y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn llwyddiannus.

Perfformiad Ariannol 2025-26


Gwnaeth y Grŵp warged cyffredinol o £349k ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Gwelodd y gymdeithas lawer o newidiadau yn ystod y flwyddyn gyda'r ailstrwythuro sefydliadol a gynyddodd adnoddau o fewn y Tîm Gweithredol i gefnogi cyflwyno cynllun strategol 2025-29.

Llwyddom eto i sicrhau cyllid grant y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) a'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP), a ddefnyddiwyd i gaffael pedwar cartref, ochr yn ochr â rhaglen gwaith cydrannau cyfalaf.

Cawsom ddyfarniad rheoleiddio ariannol Llywodraeth Cymru yn 25-26, ac o ganlyniad, dyfarnwyd y radd uchaf posibl i ni.

Adroddodd Gofal a Thrwsio Cwm Taf am ddiffyg o £70k cyn addasiad pensiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

Yn ystod y flwyddyn, mae CTCHG wedi bod yn gefnogol trwy fuddsoddi £80k yn I Lawr i Sero.




Incwm

2025-26

Rhenti a gwasanaethau	£11,920	70%
Incwm grant arall	£91	1%
Amorteiddio grantiau	£597	4%
Gofal a Thrwsio	£2,802	17%
I Lawr i Sero	£163	1%
Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAG)	£245	1%
Llog derbyniadwy	£1	0%
Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio	£724	4%
Incwm arall	£212	1%
Addasiad enillion pensiwn	£128	1%
Masnachu rhwng cwmnïau	£67	0%

CYFANSWM **£16,950,000**



GWARIANT

2025-26

Rheolaeth a gwasanaethau	£3,717	22%
Atgyweiriadau	£4,466	27%
Gofal a Thrwsio	£2,944	18%
I Lawr i Sero	£228	1%
Costau eraill	£315	2%
Llog a chostau cyllido	£1,759	11%
Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio	£678	
Dibrisiant ac amhariad eiddo tai	£2,562	15%
Addasiad yn sgil colli pensiwn	-	0%
Masnachu rhwng cwmnïau	-£67	0%

TOTAL **£16,601,000**

Ein Hasedau a'n Hatebolrwyddau 2025-26

Asedau	£127,311,038
Atebolrwyddau	£102,977,576
Cyfalaf Cyfranddaliadau a chronfeydd wrth gefn	£24,333,462

Ein Llywodraethiant

Yn dilyn y Dyfarniad Rheoleiddio diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (Ebrill 2026), rydym wedi cael gradd 'gwyrdd' am Lywodraethiant a Chyflwyno Gwasanaethau, a 'gwyrdd' am Hyfywedd Ariannol yn cadarnhau ein bod yn bodloni gofynion rheoleiddio yn llawn.

Cydnabu'r Tîm Rheoleiddio ein dealltwriaeth glir o'n hamgylchedd busnes a gweithredu, yn ogystal â'n natur agored, ein tryloywder a'n hymagwedd adeiladol trwy gydol y broses.

Mae hyn yn gyflawniad sylweddol ac yn adlewyrchu cryfder ein sefydliad, ein pobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Gwnaed y canlyniad hwn yn bosibl gan ymdrechion ar y cyd ein bwrdd, ein tîm gweithredol, ein cydweithwyr a'n tenantiaid. Cyflawnwyd hyn trwy gynnal llywodraethiant cryf, gan sicrhau data a chofnodion o ansawdd uchel, ymgorffori arfer gorau, a'r hyn sydd bwysicaf, sef gwrando ar denantiaid a ffurfio gwasanaethau o amgylch eu hanghenion.

I'n rhanddeiliaid, mae'r radd hon yn rhoi sicrwydd ein bod yn sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda, yn wydn yn ariannol, wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd da ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, a bod yn bartner cymunedol dibynadwy.

Amlinellodd ein hadroddiad ychydig o feysydd lle mae angen i ni wneud gwelliannau, ac rydym eisoes yn gweithio ar y rhain.

Cwblhaom adolygiad llywodraethu llawn, hefyd, wedi'i gefnogi gan Altair Ltd, a adroddodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ym mis Tachwedd 2025. Ymdrinnir ag argymhellion yr adolygiad yn rhan o'r broses barhaus i egluro rolau, cyfrifoldebau a phrosesau.

Byddwn yn adolygu ein cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad yn hydref 2026, i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i fod ar y trywydd cywir.

Bydd ein diweddariad nesaf ar God Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2026-27.

Ein Bwrdd

Cynhaliom broses recriwtio lwyddiannus ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd dros haf 2025, gan ddenu aelodau newydd hynod gymwys gyda sgiliau mewn datblygu, cyllid, ymglymiad tenantiaid a sgiliau Cymraeg, sydd i gyd wedi bod trwy gyfnod cynefino cynhwysfawr.

Mae ein Bwrdd bellach yn gryfach i'n cefnogi i gyflawni yn erbyn uchelgais ein cynllun strategol newydd, ac rydym yn falch o groesawu arsyllwr newydd i'n pwyllgor llywodraethu, hefyd.



John Chown
Cadeirydd



Lindsay Murphy
Is-Gadeirydd



Dr Jenifer Baxter



Tony Clark



Huw Davies



Dr Brendan D'Cruz



John Evans



Elizabeth Howard



David Jaques



Ena Lloyd



Richard Tallamy



Claire Tristham



Peter Tyndall

Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi dechrau paratoi ar gyfer cydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg ar gyfer cymdeithasau tai, gan gydnabod y bydd llawer o'r gwaith hwn yn digwydd yn 2026-27. Yn unol â disgwyliadau Comisiynydd y Gymraeg, byddwn yn defnyddio ymagwedd 'resymol a chymesur' at gydymffurfio.

Eleni, rydym wedi cynyddu nifer y cyflogeion yn y sefydliad sydd â sgiliau Cymraeg i saith. O'r swyddi y gwnaethom recriwtio ar eu cyfer y llynedd, roedd un yn dweud bod sgiliau Cymraeg yn 'hanfodol' a'r 6 sy'n weddill yn eu rhestru fel 'dymunol'.

Blaenoriaeth 7: Bod yn fusnes gwyrddach

Fel yr amlinellir uchod yn Ein Cartrefi, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cartrefi ein tenantiaid yn gynnes, yn effeithlon o ran ynni ac yn fforddiadwy i'w cynnal. Rydym yn trawsnewid ein cartrefi presennol ac yn adeiladu ein datblygiadau newydd fel eu bod wedi eu hinsiwleiddio yn well, yn fwy effeithlon i'w gwresogi a'u goleuo, a'u bod yn cynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain, ble bynnag y bo modd.

Mae hwn yn fuddsoddiad unwaith mewn cenhedlaeth i wneud cartrefi yn fwy cynaliadwy, ac i wella cysur ac ansawdd bywyd ein tenantiaid.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiad hwnnw, gosodom amcan i ni ein hunain yn wreiddiol i greu Strategaeth Gynaliadwyedd. Eleni, mae ein Bwrdd wedi penderfynu, yn hytrach na chreu strategaeth ar ei phen ei hun, y dylid ystyried cynaliadwyedd yn rhan o'n hadolygiad i wneud ymrwymiad cyhoeddus i safon adrodd gydnabyddedig o ran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Llywodraethiant (ESG), yn fwyaf tebygol yn haf 2027. Byddai hyn hefyd yn ein galluogi i asesu effaith gofynion data ein Strategaeth Trawsnewid Digidol wedi iddynt gael eu rhoi ar waith.

Mae mentrau i wella perfformiad amgylcheddol y busnes yn parhau, fodd bynnag, ac eleni, cyflwynom ein cynllun Beicio i'r Gwaith, sy'n cynnig cymhelliant i gydweithwyr ystyried cymudo ar feic.



Diolch

I'n partneriaid:

2Wish

Gwasanaethau Ar y Cyd Barcud

Bevan and Buckland

Strategaeth Bryncynon

Carbon Literacy Consortium

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cartrefi Cymunedol Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Gwlyptiroedd Cymunedol Cwm-bach

Innovate UK

HACT (Ymddiriedolaeth Elusennol
Cymdeithasau Tai)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Mind Cymru
Purple Shoots

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Rhwydwaith Gweithredu Hinsawdd RhCT
Rhwydwaith Bwyd Cynaliadwy RhCT
Heddlu De Cymru
Tai Pawb

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad
Tenantiaid

Wales & West Utilities

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Partneriaeth LENS: Cymdeithas Tai
Newydd, Tai Hafod, Tai Cymunedol
Bron Afon, Grŵp Beacon Cymru,
Cymdeithas Tai Cadwyn, Cartrefi'r Fro,
Cymoedd i'r Arfordir (V2C), Cymdeithas
Tai Cymunedol Caerdydd (CCHA), a
Trivallis.

Ein his-gyrff:

Gofal a Thrwsio Cwm Taf

I Lawr i Sero

Ein benthycwyr a'n cyllidwyr:

Barclays

Nationwide

Good Things Foundation

Innovate UK

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
(Gofal a Thrwsio)

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (DtZ)
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (DtZ)
Orchardbrook

Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd (DtZ)
Principality

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Triodos

Unity Bank

Llywodraeth Cymru

Rydym yn diolch yn fawr i Matt Appleby ac
Annabel Lloyd am eu cymorth yn llunio'r
adroddiad hwn.



Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf
Uned 4, Parc Navigation,
Abercynon, CF45 4SN

 **0345 260 2633**

 **info@cynon-taf.org.uk**

   **@CynonTafHousing**

 **www.cynon-taf.org.uk**